Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad ar y cyd pellach ar y camau a gymerwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i fynd i'r afael â'r pryderon llywodraethu a nodwyd yn 2013, a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 29 Mehefin.

Trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr Adroddiad hwn yn ystod y cyfarfod ar 10 Gorffennaf a nododd y gwelliannau sydd wedi eu gwneud i'r trefniadau llywodraethu yn BIPBC. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y Bwrdd ar y trywydd iawn, a chytunwyd y byddwn yn anfon copi o'r [adroddiad](#) atoch chi, a gofyn i'ch Pwyllgor ystyried y trefniadau llywodraethu yn BIPBC fel rhan o'r sesiynau craffu rheolaidd yr ydych yn eu cynnal gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Gweinidog dros Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir



Nick Ramsay AC
Cadeirydd





Rebecca Evans AC/AM

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-1792-17

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

18 Gorffennaf 2017

Annwyl Dai,

Llythyr yn dilyn tystiolaeth ar 29 Mehefin 2017

Diolch ichi am eich e-bost yn dilyn ein presenoldeb yn y Pwyllgor Craffu Ariannol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 29 Mehefin 2017.

Gwnaed addewid yn ystod y gwrandawriad i roi nodyn i'r Pwyllgor yn amlinellu hynt cynlluniau peilot y Rhaglen Deddf Gofal Gwrthgyfatal sy'n cael eu cynnal ym Myrddau Aneurin Bevan a Chwm Taf.

Nod y ddau gynllun yw profi a rhannu'r hyn a ddysgwyd o wahanol ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar boblogaeth er mwyn lleihau anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes ar gyfer y cymunedau mwy difreintiedig. Y bwriad yw cymryd camau rhagweithiol sydd wedi eu targedu i adnabod y rheini sydd mewn perygl o ddioddef clefyd cardiofasgwlaidd ac i gytuno ar gynllun i leihau'r perygl gyda phob un o'r unigolion hynny.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi bod yn profi model yn y gymuned o'r enw "Byw'n Dda Byw'n Hirach" sy'n cynnig asesiadau unigol 45 munud i bobl mewn lleoliadau cyfleus yn y gymuned leol. Mae'r asesiadau hyn yn cynnwys cwestiynau demograffig ynghylch oedran, ethnigrwydd, ffordd o fyw a hanes teuluol. Mae hefyd yn cynnwys profi pwysedd gwaed, pwls, lefelau carbon monocsid, colesterol a lefelau siwgr yn y gwaed. Cymerir mesuriadau ar gyfer taldra, pwysau a maint o gwmpas y canol er mwyn asesu'r perygl o ddiabetes, ac mae'r rheini sydd mewn perygl mawr yn cael prawf gwaed heb fod yn wythiennol i gadarnhau a ydynt yn dioddef o'r cyflwr ai peidio.

Mae'r canlyniadau a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan y bwrdd iechyd ddiwedd Mawrth 2017 yn dangos bod 9000 o bobl wedi mynd drwy asesiad mewn 1,475 o sesiynau a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gynhaliwyd mewn 49 o leoliadau cymunedol, a bod hynny wedi cwmpasu poblogaethau cofrestredig 25 o bractisau meddyg teulu.

Yn 2017-18, mae'r bwrdd iechyd yn ymestyn y rhaglen i gynnwys poblogaethau tri chlwtwr gofal sylfaenol arall. Mae'n datblygu'r rhaglen i gynnwys fframwaith ar gyfer iechyd meddwl gyda hyfforddiant achrededig i staff.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn profi dull gweithredu sy'n seiliedig ar bractisau meddygon teulu, gydag asesiadau'n cael eu darparu gan weithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r canlyniadau a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan y bwrdd iechyd ddiwedd Mawrth 2017 yn dangos bod 2,000 o asesiadau wedi eu cynnal mewn poblogaethau cofrestredig saith practis meddyg teulu. Yn 2017-18, mae'r bwrdd iechyd yn ehangu cwmpas yr asesiad risg hwn i gynnwys poblogaethau cofrestredig tri phractis meddyg teulu arall.

Mae'r dysgu o'r ddau gynllun braenaru wedi bod yn gadarnhaol. Yn Aneurin Bevan, ar gyfartaledd mae 30% o gleifion sy'n derbyn gwiriad iechyd yn cael eu hadnabod â materion iechyd drwy sbardunau canllaw NICE, ac felly angen apwyntiad pellach gyda'u practis meddyg teulu mewn perthynas â lefel risg pwysedd gwaed, colesterol a diabetes. Yng Nghwm Taf, cofnododd 154 o gleifion cynnydd yn ei HbA1c (cyfartaledd lefel y siwgr yn y gwaed) yn ystod eu gwiriad iechyd gyda 44 ohonynt yn cael diagnosis o ddiabetes.

Mae'r hyn a ddysgwyd gan y ddau fwrdd a fu'n gwneud y gwaith braenaru yn gadarnhaol. Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd barhau â'r dull rhagweithiol ac ataliol hwn o ymdrin â chlefyd cardiofasgwlaidd, gan ehangu ei ddefnydd i anghenion iechyd eraill megis iechyd meddwl lle byddai hynny'n effeithiol.

Mae'r hyn a ddysgwyd gan y ddau fwrdd braenaru hyn yn cael ei rannu ar draws Cymru er mwyn helpu i ddatblygu gwasanaethau. Mae'r Grwpiau Gweithredu ar gyfer Cyflyrau ar y Galon, Strôc a Diabetes yn darparu £0.3 miliwn y flwyddyn dros gyfnod o dair blynedd o 2015-16 ymlaen i hwyluso'r gwaith o gyflwyno a gweithredu'r rhaglen yng ngweddill y byrddau iechyd.

Hefyd, fel y gofynnwyd, dyma ddolen at y Ddogfen Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd <http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/public-health-framework?skip=1&lang=cy>


Gobeithio bod yr ymateb wedi bod o fudd ichi.

Yn gywir,



Vaughan Gething AC / AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Rebecca Evans AC/AM

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health



19 July 2017

Dr Dai Lloyd AM
Chair
Health Social Care and Sport Committee
National Assembly for Wales
The Senedd
Cardiff Bay
CARDIFF
CF10 4PZ

Dear Dai

Re: Medical Recruitment Report

I would like to extend my thanks for the opportunity for the College to be involved in the medical recruitment inquiry and we welcome the report.

As highlighted at the launch, RCGP has serious concerns about the use of F3 doctors as locums in general practice. A GP is a skilled and specialised role and a doctor can only become a GP after a minimum 3 year dedicated training scheme.

With the increasing complexity of patients that we see and the transfer of care into the community, it is essential that these standards are maintained. We therefore cannot support doctors who have not been through the training process working unsupervised in general practice.

However, we do support opportunities for doctors in Foundation Years to gain experience in GP under supervision and we are happy to work with HEIW to make this happen.

With kind regards.

Yours sincerely

Dr Rebecca Payne
Chair
RCGP Wales

Royal College of General Practitioners Wales Regus House Falcon Drive Cardiff Bay Cardiff CF10 4RU
Tel 020 3188 7755 Fax 020 3188 7756 email welshc@rcgp.org.uk web www.rcgp-wales.org.uk

Coleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru Tŷ Regus Rhodfa'r Hebog Bae Caerdydd Caerdydd CF10 4RU
Ffôn 020 3188 7755 Ffacs 020 3188 7756 ebost welshc@rcgp.org.uk web www.rcgp-wales.org.uk

Patron: His Royal Highness the Duke of Edinburgh Registered charity number 223106

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cadeirydd Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

20 Gorffennaf 2017

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19

Yn ein cyfarfod ar 19 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ei ddull o graffu ar y gyllideb. Rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i ystyried sut y gallwch gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf rhesymegol ac effeithiol ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth.

Fel y gwyddoch dyma'r flwyddyn gyntaf y byddwn yn craffu ar y gyllideb ddrafft o dan y Rheolau Sefydlog diwygiedig a'r protocol cysylltiedig. Rwyf wedi trafod hyn gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau yn y fforwm Cadeiryddion ar 12 Gorffennaf,

Rhoi sylw i'r gyllideb

Rydym wedi cytuno i barhau â'r dull a ddilynwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, lle mae craffu ar y gyllideb yn canolbwyntio ar y pedair egwyddor o ran craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau?



- **Gwerth am arian** – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (hynny yw) canlyniadau; a
- **Phrosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

Yn dilyn digwyddiad i randdeiliaid yng Ngogledd Cymru, rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld y gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Cyllido byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*
- *dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau. (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru ar y galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau*
- *polisiau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi a lliniaru effeithiau'r diwygiadau i'r gyfundrefn les*
- *Cynllunio a pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd*
- *Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau newydd ynghylch trethi a benthyca*
- *Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o osod blaenoriaethau a dyraniadau cyllid*
- *Sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisiau*

Anogir chi i ddefnyddio rhai o'r meysydd hyn fel ffocws eich gwaith craffu ar y gyllideb.

Ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft

Yn ôl yr arfer, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar ran yr holl Bwyllgorau yn ystod toriad yr haf a bydd yr ymatebion yn cael eu rhannu gyda chi yn yr hydref er mwyn helpu eich gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft.



Amserlen

Fel y gwyddoch erbyn hyn, mae'r dyddiadau ar gyfer y gyllideb ddrafft bellach wedi'u cytuno fel a ganlyn:

- Gosod amlinelliad o'r Gyllideb Ddrafft - 3 Hydref
- Gosod y Gyllideb Ddrafft fanwl - 24 Hydref
- Dyddiad cau ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Cyllid - 28 Tachwedd
- *Y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft - 5 Rhagfyr*
- Cyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol - 19 Rhagfyr

Fel y gwyddoch mae'r darpariaethau mewn perthynas ag adrodd gan bwyllgorau polisi wedi newid, ac rydych yn gallu adrodd yn eich rhinwedd eich hun yn awr (os dymunwch), a gall eich adroddiadau gael eu defnyddio fel dogfen ategol i'r ddadl ar y gyllideb ddrafft. Fel Pwyllgor, rydym yn ystyried sut y gallwn gynnal rôl strategol, oruchwyliol mewn perthynas â chraffu ariannol, ond yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid ar 0300 200 6372, neu Bethan.Davies@cynulliad.cymru.

Yn gywir



Simon Thomas

Cadeirydd



Dr. Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a
Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3 Awst 2017

Annwyl Dai


Gwaith craffu pwyllgorau ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Wrth baratoi ar gyfer gwaith craffu pwyllgorau'r Cynulliad o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi anfon y cais amgaeedig am dystiolaeth ysgrifenedig at Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. O ystyried y gorgyffwrdd yng nghylchoedd gwaith ein pwyllgorau, o ran cwrteisi, roeddwn am ichi fod yn ymwybodol o'n cais. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn ein galluogi i osgoi unrhyw ddyblygu o ran ymdrech a rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol gyda'n gilydd.

Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd Ysgrifennydd y Cabinet a Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i ddarparu tystiolaeth lafar ym mis Tachwedd. Byddaf yn gofyn i staff y pwyllgor sicrhau bod y cydweithwyr sy'n cefnogi eich pwyllgor yn cael yr holl wybodaeth berthnasol sy'n codi fel rhan o'n gwaith craffu.

Fel y blynyddoedd diwethaf, byddwn yn ceisio dilyn dull y Pwyllgor Cyllid, gan seilio ein dull ni ar y pedair egwyddor o ran craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. Byddwn hefyd yn ceisio tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant a'r Gweinidog Sgiliau, o ystyried pa mor berthnasol yw eu gwaith hwy i'n cylch gwaith ni. Yn unol â'r gweithdrefnau cyllidebol newydd, byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau i'r Cynulliad mewn pryd ar gyfer dadl y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb ddrafft ar 5 Rhagfyr 2017. Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda chi.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd



Vaughan Gething AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

3 Awst 2017

Annwyl Vaughan

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Cynulliad yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 yn ystod tymor yr hydref.

Tystiolaeth ysgrifenedig

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, byddem yn croesawu gwybodaeth ysgrifenedig gennych am y meysydd a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn dydd Iau 26 Hydref 2017.


Tystiolaeth lafar

Byddai'r Aelodau hefyd yn ddiolchgar pe gallech fynychu sesiwn tystiolaeth lafar 90 munud ddydd Mercher 8 Tachwedd 2017 (11:15 - 12:45). Byddwn hefyd am ymdrin â materion sy'n gyfrifoldeb o ddydd i ddydd i Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac ar y sail hwnnw byddem yn croesawu ei phresenoldeb. Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn ati er gwybodaeth.

Dull

Fel y blynyddoedd diwethaf, byddwn yn ceisio dilyn dull y Pwyllgor Cyllid, gan seilio ein dull ar y pedair egwyddor o ran craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. Byddwn hefyd yn ceisio tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, a'r Gweinidog Sgiliau, o ystyried pa mor berthnasol yw eu gwaith i'n cylch gwaith ni. Byddwn yn cysylltu â'n chwaer-bwyllgorau mewn perthynas â meysydd sy'n gorgyffwrdd. Yn unol â'r gweithdrefnau cyllidebol newydd, byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau i'r Cynulliad mewn pryd ar gyfer dadl y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb ddrafft ar 5 Rhagfyr 2017. Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda chi.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd



ATODIAD - CAIS AM WYBODAETH YSGRIFENEDIG CYN CRAFFU AR Y GYLLIDEB DDRAFFT

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn:

Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer 2018-19 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc fesul Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.
- Dyraniadau dangosol y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer 2019-20 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.
- Sylwadau ar bob un o'r camau gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau ers Cyllideb Ddrafft 2018-19 ac eglurhad ohonynt, ac ers y gyllideb atodol gyntaf (Mehefin 2017).

Rhagor o wybodaeth

- Gwybodaeth am sut y mae cydraddoldebau, cynaliadwyedd a'r Gymraeg, fel y maent yn berthnasol i blant a phobl ifanc, wedi cael eu hystyried yn nyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, ac unrhyw enghreifftiau lle y mae ystyriaethau o'r fath wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ddyrannu'r gyllideb neu wedi newid cynigion cychwynnol.
- Pa ystyriaeth, fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, sydd wedi'i gymryd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran gwneud dyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.
- Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn y portffolio Iechyd, Llesiant a Chwaraeon er mwyn darparu ar gyfer deddfwriaeth sydd â'r potensial i gael effaith yn y flwyddyn ariannol 2018-19 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).
- Goblygiadau canlyniad y refferendwm i'r DU adael yr UE i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon fel sy'n berthnasol i blant a sut y bydd yr Adran yn rheoli unrhyw effaith a ragwelir.
- Gwybodaeth am y dulliau a fabwysiadwyd gan yr Adran i:
 - fesur, monitro a gwerthuso canlyniadau i ddangos gwerth am arian;
 - defnyddio tystiolaeth fel gyrrwr wrth nodi blaenoriaethau a phennu dyraniadau.



- Copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd gan yr Adran i lywio'r dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon drafft ar gyfer 2018-19. Os nad oes Asesiad penodol wedi'i gynnal, a fydddech cystal â nodi'r rhesymau am hyn a darparu copi o unrhyw asesiad integredig arall o effaith.

Meysydd penodol

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

- Gwybodaeth am gyllid ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed arbenigol ar gyfer 2018-19, gan gynnwys y gyllideb ar gyfer darparu gwasanaethau Haen 1 i Haen 4.
- Goblygiadau ariannol cyflawni rhaglen wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ar gyfer 2018-19.
- Ar gyfer 2018-19, cyfran o wariant y GIG ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.
- Canran gwariant byrddau iechyd lleol ar iechyd meddwl a ddyrannwyd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ers mis Medi 2015.
- A fydd y swm ychwanegol, sydd bron yn £8 miliwn, a fuddsoddwyd mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yn parhau i gael ei ddyrannu'n flynyddol yn barhaus.
- Y diweddaraf am y gwariant gwirioneddol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yr alldro ar gyfer 2017-18 a'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2018-19, yn ôl Haen a/neu flaenoriaethau llywodraeth megis gwasanaethau niwro-ddatblygiadol, ymateb mewn argyfwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, mynediad at therapïau seicolegol, gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol a phobl ifanc sydd â salwch difrifol ar gam cynnar, fel seicosis.
- Y gyllideb ragamcanol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20, a 2020-21.
- Unrhyw arian ychwanegol, dewisol (a) sydd wedi cyllidebu ar eu cyfer a (b) a gaiff ei wario ar iechyd meddwl plant, y glasoes ac oedolion ifanc.
- Gwybodaeth am sut y mae gwariant ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn cael ei olrhain gan Lywodraeth Cymru a'r prosesau sydd ar waith i ddwyn Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif am sicrhau gwariant bwrdd iechyd yn unol ag anghenion eu poblogaeth sydd angen Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a'r buddsoddiad ychwanegol yn y Gwasanaethau ers 2015-16.



- Amcangyfrif o faint y mae awdurdodau lleol yn ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl i gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc.

Y 1,000 diwrnod cyntaf/profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

- Amcangyfrif o gyfran y gwariant ar wasanaethau plant a phobl ifanc o gyllideb Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn benodol (a) cyllideb a (b) gwariant ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud ar y Cydweithrediad 1,000 Diwrnod Cyntaf a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
- (a) Y gyllideb a (b) gwariant ar gyfer gweithredu'r Rhaglen Plant Iach Cymru.
- Canran y gwariant y GIG ar raglenni dysgu plentyndod cynnar, rhaglenni teulu a rhaglenni tlodi plant.
- Canran y gwariant ar weithgareddau sy'n atal plant rhag bod yn rhan o'r system amddiffyn plant.
- Canran y gwariant ar leihau aildroseddu ymhlith plant a phobl ifanc.
- Canran y gwariant ar wasanaethau/ymyriadau cyffredinol i feithrin gwydnwch mewn plant a phobl ifanc.
- Y gyllideb a ragwelir ar gyfer 2018-19 ar gyfer gwasanaethau a gynlluniwyd i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed, gan gynnwys trais, camdriniaeth, esgeulustod a phrofiadau trawmatig.

Iechyd meddwl mamau ac iechyd meddwl amenedigol

- (a) Y gyllideb a (b) gwariant ar gyfer iechyd meddwl mamau.
- (a) Y gyllideb a (b) gwariant ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol, yn cwmpasu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol arbenigol ar gyfer 2018-19 a'r gyllideb a ragwelir ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21

Gwasanaethau newyddenedigol

- Y gyllideb a ddyrannwyd i gyrraedd y safonau newyddenedigol cenedlaethol; blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ar gyfer y 12 mis nesaf; a sut y bydd dyraniad y gyllideb ar gyfer 2017-18 yn helpu i ysgogi newid/gwella perfformiad.
- Gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn olrhain gwariant ar wasanaethau newyddenedigol a'r prosesau sydd ar waith i ddwyn byrddau iechyd lleol i gyfrif i sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol yn cael y cyllid a'r staff angenrheidiol er mwyn cyrraedd y safonau cenedlaethol.



Anghydraddoldebau iechyd plant

- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd plant a sut y caiff hyn ei adlewyrchu yn y dyraniadau cyllideb ar gyfer 2018-19.

Y Fframwaith Nyrsio Ysgolion

- (a) Y gyllideb a (b) gwariant ar gyfer gweithredu'r fframwaith nyrsio ysgolion diwygiedig a sut y mae hyn yn cymharu â'r tair blynedd flaenorol.
- Unrhyw asesiad o'r costau i weithredu'r canllawiau anghenion gofal iechyd diwygiedig, sydd bellach yn statudol, ar gyfer 2018-19 ac yn y dyfodol.

Cymorth ar gyfer plant anabl a Chronfa'r Teulu

- Gwybodaeth am y cyllid sydd ar gael i gefnogi plant anabl, gan gynnwys manylion am sut y caiff y gwariant ar blant anabl ei fonitro.
- (a) Y gyllideb a (b) gwariant ar gyfer Cronfa'r Teulu a sut y mae hyn yn cymharu â'r tair blynedd flaenorol.

Atal

- Manylion am nodau a phrosiectau mentrau gwariant ataliol penodol sy'n dangos symudiad Llywodraeth Cymru at wariant ataliol trwy, gan gynnwys:
 - rhestr o brosiectau sy'n bodoli eisoes a arweinir gan atal sy'n enghreifftiau o fuddsoddiad y blynyddoedd cynnar;
 - blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 sy'n effeithio ar iechyd a lles plant a phobl ifanc a sut y maent yn rhan o'r agenda ataliol.
- Manylion am sut y mae gwerth am arian a buddion o ran cost rhaglenni ataliol o'r fath yn cael eu gwerthuso.

Gwasanaethau cymdeithasol i blant a phobl ifanc

- Eglurhad o ba Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog sydd â chyfrifoldeb cyllidebol a/neu bolisi ar gyfer pob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc, a'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae cydgysylltu rhwng Ysgrifenyddion Cabinet/Gweinidogion yn gweithio'n ymarferol o fewn y trefniant newydd.





Health Committee

House of Commons London SW1A 0AA

Tel: [REDACTED] Fax: [REDACTED] Email: [REDACTED]

Website: www.parliament.uk/healthcom Twitter: [@CommonsHealth](https://twitter.com/ CommonsHealth)

From Dr Sarah Wollaston MP, Chair

Dr Dai Lloyd AM
Chair of the Health, Social Care & Sport Committee

Lynne Neagle AM
Chair of the Children, Young People & Education Committee

10 August 2017

Dear Dr Lloyd and Ms Neagle

Dr Sarah Wollaston, Chair of the House of Commons Health Committee, has asked me to reply to your letter to her of 1 August.

The Health Committee has not yet been re-established in this Parliament, so we do not yet know what it will be working on in the coming months. However, Dr Wollaston has indicated that she would be happy to meet later in the autumn when the Committee's programme is clearer.

In the meantime, I note that a number of the areas which your committees are working on reflect subjects on which the Health Committee worked in the last Parliament, and to which it may return. I note in particular the Health, Social Care and Sport Committee's work on suicide prevention: I am sure that you will have noted the Health Committee's [two reports on that subject](#) in the last session of Parliament, and its intention to hold a follow-up hearing after there has been opportunity for the Government and other relevant stakeholders to implement the measures set out in the latest progress report (March 2017 report, para 169). I also note the Children, Young People and Education Committee's work on the emotional mental health of children and young people, which has strong resonance with the work the Health Committee did jointly with the House of Commons Education Committee on [children and young people's mental health—the role of education](#): that work was cut short by the general election, but the Committees expressed the hope in their report that their successor Committees would return to the issue in the new Parliament (para 4).

I am grateful for the offer to contact the Clerks of your Committees if we would like to discuss anything in further detail: likewise, I and my team would be very happy to discuss any aspects of our Committee's work with your teams further as required.

Yours sincerely,



Huw Yardley
Clerk, Health Committee
House of Commons
London

[REDACTED]

[REDACTED] (mobile and message services)

[REDACTED]



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-RE-0501-17

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Awst 2017

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf ynghylch cychwyn a'r amserlen ar gyfer rhoi adrannau 2 a 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ar waith.

Mae'r adrannau hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i Iunio, gweithredu ac adolygu strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra yng Nghymru. Yn ystod gwaith craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Ddeddf, pwysleisiais y byddai angen ymgysylltu'n helaeth ag ystod eang o randdeiliaid drwy gydol cam datblygu'r strategaeth er mwyn iddi gael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Mae'n fwrriad gennyf i'r Gorchymyn Cychwyn sy'n ymwneud ag adrannau 2 a 3 o'r Ddeddf gael ei wneud ar y cyfle cyntaf ym mis Hydref 2017 ac i'r strategaeth gael ei chwblhau o fewn amserlen o 18-24 mis. Rwyf yn credu y dylai hyn ganiatáu digon o amser i gynnwys rhanddeiliaid allweddol yn ei datblygiad, ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a dadl ar y gwaith pwysig hwn yn y Siambr.

Rwyf wedi gofyn i'r Prif Swyddog Meddygol, Dr Frank Atherton, arwain y gwaith datblygu, a gaiff ei oruchwylio gan Fwrdd Datblygu'r Strategaeth, gyda chynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid allweddol ac uwch swyddogion polisi o bob rhan o Lywodraethu Cymru. Byddaf yn falch o roi'r newyddion diweddaraf i gydweithwyr wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Yn gywir

Rebecca Evans AC/AM

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Vaughan Gething AC/AM

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/2693/17

Dr Dai Lloyd AC

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

1 Medi 2017

Annwyl Dai

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf yn gofyn am eglurhad o faterion yn ymwneud â'r canllawiau sy'n ategu'r broses o weithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a godwyd gyda'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Cymarebau staffio

Cymerodd y Pwyllgor blaenorol dystiolaeth gan nifer o randdeiliaid ar y gymhareb staff nyrsio sefydlog sydd ar wyneb y ddeddfwriaeth. Trafodwyd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â hyn yn fanwl ac roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol yn ogystal â'r Prif Swyddog Nyrsio. Amlinellir y trafodaethau hyn yn adroddiad y pwyllgor ac roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at y sylwadau ar y defnydd o egwyddor y Prif Swyddog Nyrsio a'r Cyfarwyddwyr Nyrsio o'r gymhareb 1 i 7 o nyrsys i gleifion (yn ystod y dydd):

“the ratio is a recommended starting consideration and is not a compulsory requirement in itself [...] While the CNO & Nurse Director principles include the principle of a ratio of 1:7 nurse to patients, this is only a guiding figure to assist local considerations of nurse staffing levels. She emphasised that having a fixed ratio was not particularly helpful for local decision-making, nor was it safe” (T 24)

Ar dudalen 35 o adroddiad y Pwyllgor nodir ymateb yr Aelod sy'n Gyfrifol i'r drafodaeth hon:

Wrth ymateb i bryderon am y gair “gofynnol (‘minimum’)”, dywedodd Kirsty Williams wrth y Pwyllgor fod angen gwneud mwy na phennu cymarebau staffio yn unig er mwyn sicrhau lefelau diogel staff nyrsio, a chyfeiriodd at y ffaith bod y Bil yn defnyddio “dull trionglog” o ran lefelau staff nyrsio. Eglurodd bod y dull hwn yn gofyn am ystyried tri pheth er mwyn cyflawni lefelau diogel staff nyrsio, sef:

- *cymarebau “gofynnol (‘minimum’)” staff nyrsio;*
- *defnyddio barn broffesiynol; ac*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- *offer ar gyfer y gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'u dilysu (hynny yw, yr offer aciwtedd sy'n cael eu defnyddio gan gyrrff iechyd ar adegau penodol i bennu lefelau staffio).*

Dywedodd Kirsty Williams y byddai'r lefelau staffio diogel yn fwy tebygol o gael eu cyflawni pe byddai'r dulliau hyn yn cael eu defnyddio ar y cyd yn hytrach nag, er enghraifft, defnyddio cymarebau yn unig.

Nododd y Gweinidog yn benodol wrth roi ei dystiolaeth na fyddai'r ddeddfwriaeth fel y'i cyflwynwyd yn cael ei chefnogi gan y llywodraeth heb i'r cyfeiriad at gymhareb staffio ofynnol gael ei ddileu. Mae argymhelliad 3 gan y Pwyllgor yn cefnogi'r farn hon.

Wrth baratoi'r Canllawiau Statudol sy'n ofynnol yn adran 25D o'r Ddeddf rhoddwyd ystyriaeth i gyfeirio at egwyddorion y Prif Swyddog Nyrsio a'r Cyfarwyddwyr Nyrsio a gyhoeddwyd yn 2012. Byddai unrhyw gyfeiriad at ofyniad i lynu atynt wedi tansilio eu bwriad gwreiddiol, fel y trafodwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio yng nghyfnod 2, ac wedi tansilio'r dull trionglog a nodir ar wyneb y Ddeddf. Felly, penderfynwyd y dylai'r egwyddorion hyn, ynghyd â chanllawiau eraill ac arferion gorau fod yn rhan o farn broffesiynol y person dynodedig sy'n gwneud y cyfrifiad ynghylch lefelau staff nyrsio. Felly mae'r Canllawiau Statudol yn datgan ym mharagraff 28:

28. Dylai barn broffesiynol y person dynodedig gael ei llywio gan unrhyw ganllawiau, egwyddorion neu waith ymchwil perthnasol ac arbenigol sy'n berthnasol i staff nyrsio proffesiynol.

Ni ddylai'r canllawiau danseilio'r broses y mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'w dilyn er mwyn cyfrifo lefel staff nyrsio ar gyfer ward benodol. Mae'r Ddeddf yn nodi dull trionglog o gyfrifo lefel y staff nyrsio. Mae'r dull hwn yn gwerthfawrogi arbenigedd proffesiynol ac uniondeb staff nyrsio ac yn ymddiried ynddynt i ddefnyddio eu barn broffesiynol, ochr yn ochr â dulliau cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dangosyddion cleifion sy'n sensitif i nyrsys, er mwyn gwneud y cyfrifiadau hyn. Dyma'r dull gweithredu y cytunwyd arno gan y Cynulliad Cenedlaethol pan gafodd y Ddeddf ei diwygio a'i phasio. Felly ni all y canllawiau statudol gynnwys cymarebau sefydlog neu fesurau eraill sy'n tansilio'r agwedd hollbwysig hon ar y ddeddfwriaeth.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y mater hwn wedi cael eu hystyried yn ofalus a bydd pwysigrwydd sicrhau bod yr offeryn cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael, gan gynnwys cymarebau nyrsys cofrestredig i gleifion, yn ei algorithmau yn cael eu hadlewyrchu yn y canllawiau.

Cynnwys prif nyrsys ward yn y niferoedd staffio/mentora nyrsys dan hyfforddiant

Mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn nodi yn ei ddiffiniad o 'lefel ofynnol o staff' bod hyn yn cynnwys "*swyddogaethau eraill sy'n lleihau'r amser sydd ganddynt i ofalu am gleifion*" (tabl o dan baragraff 10). Yn ogystal, mae'n cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd barn broffesiynol. Yn yr adran hon mae'r canllawiau'n nodi bod hyn yn cynnwys:

- *"Y gwasanaethau neu'r gofal a roddir i gleifion gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill neu aelodau eraill o staff (er enghraifft, gweithwyr cymorth gofal iechyd), eu cymwysterau, cymwyseddau, sgiliau a'u profiad; mewn perthynas â'r gofal sydd angen ei roi a'r gofyniad i nyrsys cofrestredig gefnogi, dirprwyo a goruchwyllo.*
- *Y graddau y mae'n ofynnol i'r nyrsys sy'n rhoi'r gofal ymgymryd â swyddogaethau gweinyddol." (pwyntiau bwled 5 a 6 ym mharagraff 27)*

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y mater hwn wedi cael eu hystyried yn ofalus a bydd y canllawiau statudol terfynol yn cael eu cryfhau i gyfeirio'n benodol at statws uwchrifol prif nyrsys ward ac unrhyw ofynion rheoliadol ar gyfer dysgwyr.

Adroddiadau ac atebolrwydd

Mae'r Ddeddf yn glir ynghylch yr hyn y mae angen ei gynnwys yn y canllawiau; nodir hyn o dan y dyletswyddau a ddisgrifir yn adrannau 25B a 25C. Nid oes unrhyw gynlluniau i gynnwys meysydd eraill yn y canllawiau statudol.

O ran y gofynion monitro a nodir yn Adran 25E, cyfeiriodd fy rhagflaenydd, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, yn ei dystiolaeth yn ystod taith y Bil at bwysigrwydd peidio â thynnu nyrsys oddi wrth eu dyletswyddau darparu gofal er mwyn cipio data a'r defnydd o systemau presennol.

Byddaf yn ystyried cyhoeddi canllawiau anstatudol ar wahân i gwmpasu monitro, ymhlith meysydd eraill, gyda'r nod o gefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf ar draws GIG Cymru.

Y Gymraeg

Mae'r fframwaith strategol 'Mwy na geiriau' yn anelu at sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal a bod pobl y mae angen gwasanaethau yn y Gymraeg arnynt yn cael cynnig y gwasanaethau hynny. Gelwir hyn yn 'Gynnig Rhagweithiol'. Mae'r fframwaith yn cydnabod nad mater o ddewis yn unig yw defnyddio'r Gymraeg, ond ei fod hefyd yn fater o angen. Mae'n arbennig o bwysig i nifer o bobl agored i niwed a'u teuluoedd gael mynediad at wasanaethau yn eu mamiaith, megis pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu sydd wedi cael strôc ac sydd o bosib wedi colli eu hail iaith, neu blant ifanc iawn sydd efallai ond yn siarad Cymraeg.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi statws cyfartal mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n rhoi dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y ddwy iaith yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus lunio cynllun iaith i egluro pa wasanaethau y byddant yn eu darparu yn Gymraeg, sut y byddant yn gwneud hynny a phryd. Mae gan bob bwrdd ac Ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru Gynlluniau Iaith Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn amlinellu fframwaith safonau cyffredin Llywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG/sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ar draws pob lleoliad gofal iechyd. Maent yn cynnwys ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg.

Nid oedd y canllawiau a fu'n destun ymgynghoriad yn gofyn barn ar bob agwedd ar y gofynion a ddisgrifir uchod, gan fod y safonau hyn eisoes ar waith. Fodd bynnag, er mwyn rhoi sylw dyledus i'r gofynion hyn, byddaf yn sicrhau bod y fersiwn gyhoeddedig o'r canllawiau statudol yn cyfeirio'n fwy eglur at ddyletswyddau Byrddau Iechyd yn ymwneud â'r Gymraeg.

Lleoliadau eraill

Fel rhan o'r cytundeb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo y tymor hwn i sicrhau bod "mwy o nyrsys, mewn mwy o leoliadau, drwy gyfraith lefelau staffio nyrsys estynedig". Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth gadarn sydd ei hangen i ddangos bod offer newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn addas i'w defnyddio mewn cyd-destun Cymreig yn y meysydd clinigol hyn.

Mae rhaglen waith genedlaethol wedi'i sefydlu i ddatblygu offer cynllunio'r gweithlu ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu offer ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion i gleifion mewnol, wardiau pediatriig, gwasanaethau nyrsio ardal, a gwasanaethau ymwelwyr iechyd. Mae gwaith archwilio hefyd yn cael ei wneud mewn lleoliadau cartrefi gofal. Mae'r offer ar wahanol gamau o gael eu datblygu a'u profi yn GIG Cymru. Rhagwelir y bydd yr egwyddorion staffio ar gyfer gwasanaeth nyrsio cymunedol sy'n cael ei arwain gan nyrsys ardal yn cael eu cyhoeddi yr hydref hwn i gefnogi cylch Cynllunio Tymor Canolig Integredig 2018/19.

Y camau nesaf ar ôl ymgynghori

Daeth yr ymgynghoriad ar y canllawiau statudol i ben ar 7 Ebrill. Daeth 59 o ymatebion i law gan aelodau'r cyhoedd, aelodau o staff y GIG, sefydliadau sydd â diddordeb yn y gwasanaeth iechyd, undebau llafur, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Roedd amrywiaeth o safbwyntiau ar y canllawiau ac roeddwn yn falch iawn o weld cefnogaeth gyffredinol i'r dull gweithredu. Mae hefyd yn amlwg bod nifer o'r ymatebion yn cynnwys adborth gwerthfawr a fydd yn llywio'r drafft terfynol o'r canllawiau.

Rwyf wedi ymrwmo i sicrhau bod ymgynghoriadau yn ymarferion gwranddo dilys ac rwy'n gwerthfawrogi cyfraniad y cyhoedd, aelodau o staff y GIG a sefydliadau at yr ymgynghoriad hwn. Roeddwn yn ddiolchgar am yr ymatebion ac rwy'n gwerthfawrogi eu barn.

Mae fy swyddogion wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Defnyddiwyd y dadansoddiad hwn fel sail i'r adroddiad cryno, sydd i fod i gael ei gyhoeddi adeg ysgrifennu'r llythyr hwn. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad cryno, bydd y drafft terfynol o'r canllawiau yn cael ei gwblhau yn barod i'w gyhoeddi yn yr hydref.

Bydd swyddogion yn ymdrechu i gynnwys cymaint o'r adborth â phosibl yn y canllawiau terfynol, y mae peth ohono wedi cael ei nodi yn y llythyr hwn. Fodd bynnag, gwn y bydd rhai meysydd lle na fydd y newidiadau yn adlewyrchu pob un o'r ymatebion, yn enwedig mewn meysydd lle ceir gwahaniaeth barn ymysg yr ymatebwyr.

Yn gywir



Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon